

Cyngor Tref Pwllheli

DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWIYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, 3ydd O HYDREF, 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0110/19 - Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, Mici Plwm, Hefin Underwood, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar, A Williams, Mike Parry, Henry Rees Williams, Ffiona Adams.

Clerc E. Price.

.....

Cof; - 0210/19 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; Elin Hywel, E. J. Hughes, Michael Sol Owen, Parc Ioan Gruffydd, Dylan Bullard, D. O. Jones.

.....

Cof; - 0310/19 - Datgan Diddordeb.

Cyng. Hefin Underwood. Cofnod 14.

.....

Cof; - 0410/19 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

.....

Cof; - 0510/19 - Gair gan y Maer.

.....

Cof;-0610/19 - Materion cyfansoddiadol a staff.

Materion staff - Clerc yn gadael yr ystafell tra bu trafodaeth ar y mater yma yn unig. Dirprwy Maer yn cymryd nodiadau ac am yrru cofnodion i'r clerch.

.....

Cof; - 0710/19 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Medi, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

.....
Cof;- 0810/19 - Adroddiad clerc.

- Llwybr cyhoeddus Ben Garn ac i lawr at yr afon nawr wedi agor. Wedi dechrau proses o gofrestru llwybr i Ben y Garn.
- Dal i ddisgwyl i'r WI FI ddechrau - Mae'r Wi Fi nawr yn fyw.
- Toiled - dim ateb i gwestiwn glanhau'r toiledau.
- Roedd llawer yn datgan trafferthion gyda gwaith blêr sydd yn cael ei wneud gyda thorri gwellt a barbio gan y Cyngor Sir yn cyfarfod Sir Unllais. Hefyd y drafferth cael atebion i hyn gan y swyddogion. Mae swyddog newydd gyda'r cyfrifoldeb nawr ac wedi ateb bydd sylw i safon y gwaith yn cael ei wneud nawr ac yn y dyfodol.
- Wedi cyfarfod gyda swyddogion TCC yng Nghaernarfon gyda'r Cyng. Mike Parry. Bydd 30 o gamerâu i gyd ym Mhwllheli. Hyn i ddechrau mewn dau fis. Mae'r system newydd yn cael lluniau llawer mwy clir. Bydd rhagor o drafodaeth ar hyn ond mae awgrymiad o gyfraniad fesul boblogaeth. Hyn yn llai am fwy o gamerâu nâr ffigwr awgrymwyd llynedd. Bydd modd i'r Heddlu edrych ar y camerâu o'r swyddfa ym Mhwllheli.
- Mae angen " floor plan" ar y Siambr i ddechrau'r broses o archwilio'r gwaith sydd ei angen. Cyng. Mike Parry am wneud hyn.
- Wedi gyrru ffurflen gychwynnol parthed cynllun ail llenwi boteli Dwr a chael ffynnon dwr.
- Bydd cyfarfodydd gyda'r Heddlu yn ail ddechrau mis Tachwedd. Angen enwau rhai fydd yn y cyfarfodydd. Penderfynu ar Faer Eric Wyn Roberts, dirprwy Faer Mici Plwm, Cyngorwyr Hefin Underwood, Henry Rees Williams, Mike Parry, Michael Sol Owen.
- Siop Ffactori- llythyr ar y bwrdd. - Penderfynu rhoi ar raglen Tachwedd.
- Bu cais am gymorth i fynd i gynrychioli Cymru mewn cystladeuath pool yn Nhwrci gan unigolyn. Yn anffodus nid oes deddf i ymateb y ffafriol i hyn. Clerc wedi gyrru llythyr.
- Mae angen paratoi a chyhoeddi cynllun i amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn fwriadau ei wneud i gydymffurfio a dyletswyddau cynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn ein meysydd gwaith presennol. Hyn o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016, adran 6.
- Ambell i unigolyn sydd yn byw ym Mhwllheli yn gofyn pam bod ffafriaeth i Borthmadog parthed gwesty pan mae angen un ym Mhwllheli? - Mae trafodaethau mewn lle i gael gwesty i Bwllheli ond mae anawsterau angen eu datrys sydd ddim yn glwm ar Gyngor Tref.
- Teimlo bod angen arwyddion gwell yn y Siambr i arwain y cyhoedd i swyddfa'r clerc - Hyn wedi ei gytuno yn barod.
- Gwaith pompren Bont Solomon yn edrych fel bod wedi gorffen ond dal wedi cau.
- Mae 3 tendr wedi dod parthed cyfryngau cymdeithasol. Maer tri wedi derbyn gwahoddiad i roi cyflwyniad 9-10-19.

Cyngor Tref Pwllheli

- Mainc goffao! gyda phlac i'r cyn cler! yn ei le.
- Banciau yn cysoni.

Cler! i ofyn am gyngor parthed rhaglen.

.....

Cof;-0910/19 - Cynllunio.

Dim cynlluniau.

.....

Cof;-1010/19. - Lleoliad Penddelw Cynan. Gan fod gwaith adeiladol yn cael ei wneud yn y Llyfrgell ni fydd y Penddelw yna am gyfnod. Mae cadarnhad mewn lle yn barod i gael lle i'r Penddelw yn yr adeilad. Roedd pryder am ddyfodol hen daflunydd y sinema a gofynnwyd i'r Cyngorydd Sir gael gwybodaeth bellach ar hyn.

.....

Cof;-1110/19. - Stryd Moch.

Ymlaen i gyfarfod Tachwedd.

.....

Cof;-1210/19 - Cais am gyfraniad ariannol Cymdeithas Pared Dewi Sant.

Penderfynu ar gyfraniad o £1,000.

.....

Cof;-1310/19 - Cais am gyfraniad ariannol gan Glwb Criced Pwllheli.

Penderfynu ar gyfraniad o £1000.

.....

Cof; - 1410/19 - Cais am gyfraniad at noson Tan wyllt Pwllheli.

Cyngorydd Hefin Underwood yn gadael yr ystafell.

Penderfynu ar gyfraniad o £200.

.....

Cof;- 1510/19 - Coed yn tyfu ar safle bws Pwllheli sydd yn rhwystredig i barcio bws. Cyng. Hefin Underwood.

Cyngor Tref Pwllheli

Cynghorydd Ffiona Adams am gadarnhau os oes cynllun ar y gweill yn barod parthed y coed.

.....

Cof;-1610/19 – Tybiau blodau. Cyng. Elfed Gruffydd.

Penderfynu rhoi ar raglen is bwyllgor mwynderau.

.....

Cof;-1710/19 – Derbyniadau.

Cytunwyd.

500	Rhent Adams. X dau.	CR
4750	Rhent Maes Parcio.	CR
36,500	Praesept.	CR

.....

Cof;-1810/19 –Taliadau.

Cytunwyd.

90	Arwyddion i lwybrau cyhoeddus.	203165
108	DWN investment account. (Domain . cymru i`r wefan.)	203166
1484	Atkin. Darfod agor llwybr Ben Garn i lawr at yr afon.	203167
937.06	Costau gweinyddol y Siambr.	Sieciau
370.50	HMRC.	203170

Daeth y Cyngor i ben am 8 15 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 7 fed Dachwedd 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau Tachwedd cyntaf 2019.